

Prifysgol Caerdydd
Safonau'r Gymraeg
Adroddiad Blynyddol ar gyfer Mehefin 2021 -
Gorffennaf 2022

Paratowyd yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 ac adroddiad blynyddol 'Cynhyrchu safonau'r Gymraeg – dogfen cyngor arfer da' Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cynnwys

1. [Rhagair](#)
2. [Crynodeb Gweithredol](#)
3. [Trosolwg o'r Brifysgol](#)
4. [Datblygiadau yn ystod 2021-2022](#)
5. [Trefniadau Cydymffurfiaeth Cyffredinol](#)
6. [Camau yn y Dyfodol](#)
7. [Cwynion](#)
8. [Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr](#)
9. [Hyfforddiant Iaith Gymraeg i Staff](#)
10. [Cyrsgiau Hyfforddiant](#)
11. [Swyddi a Hysbysebwyd](#)
12. [Manylion Cyswllt](#)

[Atodiadau:](#)

1. Rhagair



Fel Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd, gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni, sy'n cwmpasu'r cyfnod Mehefin 2021 – Gorffennaf 2022.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg gan ei fod yn rhoi cyfle i atgyfnerthu'r gofynion ac i wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod 2021-2022, parhaodd y Brifysgol â'i hymdrechion i weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg, gan weithio'n agos gydag adrannau ac ysgolion i sicrhau eu bod i gyd yn cydymffurfio â'r safonau.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau drwy gynnal llawer o sesiynau cyflwyno ac ymwybyddiaeth, drwy gynnwys gofynion cydymffurfio â'r Safonau yn ein modiwlau hyfforddiant corfforaethol gorfodol ac yn ein rhaglenni sefydlu staff a thrwy bostio erthyglau yn ein cylchlythyrau staff a myfyrwyr.

Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud gyda'n Tîm Cyfathrebu Digidol gyda'r nod o wella ansawdd ac argaeledd ein darpariaeth ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â gweithredu gofynion y Safonau, prif ffocws y Brifysgol yn ystod y cyfnod hwn fu gwreiddio [Yr Alwad/Embrace it](#) - Strategaeth Iaith Gymraeg Prifysgol Caerdydd - yn ein diwylliant. Mae'r Strategaeth yn esbonio sut y byddwn ni, ynghyd â sefydliadau partner, yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd yn ehangach yn y Brifysgol, gyda myfyrwyr a chyda'n staff. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn dangos ein hymrwymiad i chwarae ein rhan yn yr ymdrech genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i filiwn erbyn 2050.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cydymffurfiad â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, gan gynnwys gwybodaeth am ein trefniadau cyffredinol ar gyfer cydymffurfio, cwynion, sgiliau gweithwyr, cyrsiau hyfforddi a gynigir yn Gymraeg a nifer y swyddi a hysbysebwyd a gafodd eu categorio fel rhai yr oedd angen sgiliau Cymraeg ar eu cyfer. Rydym yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd ond mae gwelliannau i'w gwneud o hyd o ran gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau.

A handwritten signature in blue ink that reads "Damian Walford Davies". The signature is fluid and cursive, with the first and last names being more prominent.

Damian Walford Davies
Dirprwy Is-ganghellor

2. Crynodeb Gweithredol

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar Brifysgol Caerdydd, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Fel un o ofynion Safon y Gymraeg 166, 172 a 178 mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol' yn manylu ar y wybodaeth ganlynol:

Cydymffurfio cyffredinol	Sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnom eu cyflawni'r flwyddyn honno (yn ôl dosbarth y safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu).
Cwynion	Nifer y cwynion a gafwyd (yn ôl dosbarth y safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu).
Sgiliau'r gweithlu	Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw.
Cyrsiau hyfforddiant	Nifer yr aelodau o staff (a'r ganran) a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennym yn Gymraeg.
Swyddi a hysbysebwyd	Nifer y swyddi gwag y gwnaethom eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'u categoreiddio gyda gofynion gwahanol o ran sgiliau Cymraeg.

6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r adroddiad ar-lein a sicrhau ei fod ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'n ofynnol inni hefyd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

3. Trosolwg o'r Brifysgol

Llywodraethu

Bwrdd Gweithredol y Brifysgol (UEB) sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud yn siŵr bod y Brifysgol yn cydymffurfio'n gyffredinol â Rheoliadau (Rhif 6) y Gymraeg 2017, yn ogystal â'r holl faterion eraill sy'n ymwneud â gweithredu a monitro polisiau.

Gellir gweld Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol yn llawn ar ein gwefan [yma](#).

Mae ein datganiad ffurfiol o gydymffurfio â'r

- Safonau Cyflenwi Gwasanaeth i'w ddarllen o fewn ein [Polisi Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg](#).
- Safonau Gweithredol i'w ddarllen o fewn ein [Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg](#).

Yn y Brifysgol, mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg, a sefydlwyd yn Hydref 2021, yn gyfrifol am gynnig arweiniad strategol a sicrhau atebolrwydd, a hynny dan oruchwyliaeth y Dirprwy Is-Ganghellor. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter i adolygu cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg a dyletswyddau statudol o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg. At hyn, mae Pwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol yn ymwneud â chraffu ar adroddiadau a datblygiadau.

Tîm Cydymffurfio a Risg

Y tîm Cydymffurfio a Risg yn Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol sy'n gyfrifol yn benodol am arweiniad a chynngor ar Safonau'r Gymraeg. Mae'r tîm Cydymffurfio a Risg yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a meysydd i'w gwella i Grŵp Gweithredol y Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio gan ein Dirprwy Is-Ganghellor. Yn dilyn ymadawriad yr Uwch Gynghorydd blaenorol â chyfrifoldeb am y Gymraeg, cwblhawyd adolygiad o'r disgrifiad swydd a'r teitl, a sefydlwyd rôl newydd yr Uwch Gynghorydd Cydymffurfio a Swyddog y Gymraeg i ddangos pwysigrwydd y Gymraeg o fewn ein cylch gwaith cydymffurfio ac i ganiatáu mwy o ffocws ar Safonau'r Gymraeg fel rhan o rôl dydd-i-ddydd yr Uwch Gynghorydd.

Grŵp Materion y Gymraeg

Mae'r grŵp gweithredol hwn, a sefydlwyd hefyd ym mis Hydref 2021, yn cyfarfod bob mis i drafod cynnydd cynlluniau gweithredu, ac unrhyw benderfyniadau strategol a ddirprwyir iddo i'w rhoi ar waith.

Modiwl Gorfodol a Digwyddiadau Sefydlu

Mae'r Brifysgol wedi creu e-fodiwl Cymraeg y mae'n rhaid i'r holl staff ei gwblhau, ac mae'n parhau i'w adolygu. Mae'r modiwl hwn yn datblygu ymwybyddiaeth aelodau staff o'r Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Brifysgol hefyd yn codi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau yn ystod ei digwyddiadau personol sefydlu staff ar gyfer dechreuwr newydd.

Tîm Cyfieithu

Ehangwyd ein huned gyfieithu 2 flynedd yn ôl o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn y galw am gyfieithu, yn ogystal ag i ddangos ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg. Mae'r uned bellach yn cynnwys saith aelod o staff – un Pennaeth Uned, pedwar Uwch Gyfieithydd a dau Gyfieithydd. Mae'r Uned wedi creu teclyn ar-lein y mae modd cyflwyno ceisiadau i'w cyfieithu drwyddo. Gall staff sy'n siarad Cymraeg hefyd gyflwyno ceisiadau i'r uned gyfieithu i wirio cywirdeb unrhyw gynnwys Cymraeg. Mae gan y Brifysgol danysgrifiad blynyddol gyda Memsource, pecyn meddalwedd cof cyfieithu sy'n storio'r holl waith cyfieithu er mwyn sicrhau cysondeb ac i gyflymu'r broses o gyfieithu yn y dyfodol pan fydd yr un frawddeg neu derm wedi'u

cyfieithu o'r blaen. Caiff pob cais a gyflwynir i'r uned ei wirio gan uwch aelod o'r tîm er mwyn sicrhau cywirdeb mewn perthynas â gramadeg ac ystyr.

Hyrwyddwyr y Gymraeg

Mae gan y Brifysgol rwydwaith Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg gweithgar, a sefydlwyd mewn ymateb i Safonau'r Gymraeg yn ystod 2017, gydag o leiaf un aelod o staff o bob Ysgol, Coleg ac Adran. Nhw yw'r pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer y tîm Cydymffurfio a Risg yr Ysgol/Adran y maent yn gweithio ynddi. Mae'r tîm Cydymffurfio a Risg yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r hyrwyddwyr i ledaenu gwybodaeth ac arweiniad sy'n helpu'r Brifysgol i gydymffurfio â'r Safonau a cheir cyfarfodydd bob semester lle y mae'r grŵp yn cyfarfod i rannu arfer da a thrafod syniadau.

Deon Y Gymraeg

Ym mlwyddyn academiaidd 2018/19, llwyddodd y Brifysgol i benodi Deon y Gymraeg sy'n meithrin cyfraniadau unigol a chyfunol at hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg. Mae'r Deon yn gweithredu fel hyrwyddwr proffil uchel ar gyfer anghenion academiaidd ac ehangach myfyrwyr a staff sy'n siarad Cymraeg. Mae gan y Deon oruchwyliaeth strategol o bortffolio ein darpariaeth Gymraeg, mae'n datblygu polisiau ac yn gyfrifol am yrru'r gwaith o gyflawni ein strategaeth Gymraeg. I ddechrau, rhoddodd y Deon flaenoriaeth i gyhoeddi ein Strategaeth a gymeradwywyd ar y lefel uchaf o wneud penderfyniadau yn y Brifysgol (UEB, y Cyngor a'r Senedd) ym mis Rhagfyr 2020.

Mae cynllun gwaith Deon y Gymraeg a'r Academi Iaith Gymraeg yn cael ei fonitro gan Grŵp Gweithredol yr Iaith Gymraeg, sy'n cyfarfod bob chwarter ac yn cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor (fel Arweinydd y Brifysgol ar gyfer y Gymraeg ac EDI), y Prif Swyddog Gweithredu, Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Pennaeth Risg a Chydymffurfio, Swyddog Iaith Gymraeg ar gyfer Myfyrwyr, a chydweithwyr Gwasanaethau Proffesiynol ac Academiaidd allweddol. Trwy'r Grŵp hwn mae'r Deon yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n monitro cynnydd bob 6 mis. Bydd gwaith ar y strategaeth sy'n ymwneud â'r myfyrwyr hefyd yn cael ei fonitro drwy'r pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr sy'n cyfarfod yn chwarterol ac mae'r gwaith yn gallu cael ei graffu hefyd trwy'r pwyllgorau Llywodraethu; er enghraifft, ym mis Mawrth 2022 gwahoddwyd y Deon i adrodd ar y strategaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Gan mai dim ond ym mis Rhagfyr 2020 y cymeradwywyd y strategaeth nid yw wedi cael ei hadolygu eto, ond mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd o fewn tair blynedd i'r gymeradwyaeth gychwynnol hon.

Academi Gymraeg

Ym mlwyddyn academiaidd 2021/22, llwyddodd y Brifysgol i benodi Rheolwr llawn amser ar yr Academi Iaith Gymraeg i gefnogi Deon y Gymraeg a chyfrannu at gydlynu'r ddarpariaeth Gymraeg a chyflawni nodau ehangach Strategaeth Iaith Gymraeg uchelgeisiol y sefydliad. Lleolir y rôl yn yr Academi Dysgu ac Addysgu. Mae'r Rheolwr yn adrodd i Ddeon yr Iaith Gymraeg ac i Reolwr Tîm Prosiect a Gweithrediadau'r Academi Dysgu ac Addysgu ac mae'n bwynt cyswllt canolog, gan roi arweiniad a chefnogaeth i wahanol ysgolion ac adrannau Academiaidd y Brifysgol. Yn ogystal â threfnu'r rhaglen waith fewnol, mae'r Rheolwr yn cysylltu ag ystod eang o sefydliadau allanol gan gynnwys ysgolion lleol, Sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru, y llywodraeth, sefydliadau trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol eraill gyda'r nod o hwyluso ein nodau strategol yn ogystal â chyfrannu at gydweithio ehangach ledled Cymru o ran hybu'r Gymraeg.

Rhwydwaith

Mae Rhwydwaith yn rhan o Rwydweithiau Cydraddoldeb Staff y Brifysgol a sefydlir gan Bwyllgor

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Brifysgol. Mae Rhwydwaith yn bodoli i ddarparu fforwm ar gyfer cefnogaeth a thrafodaeth i staff sy'n dymuno trafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg ac i hwyluso trafodaeth rhwng y Brifysgol a staff ynglŷn â chefnogaeth, polisiau, a gweithdrefnau. Mae'r Cadeirydd hefyd yn aelod â phleidlais o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant lle y codir adroddiadau diweddar, a materion i sylw'r Cadeirydd.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gangen ym mhob SAU yng Nghymru, yn ogystal ag yn y rhan fwyaf o'r Colegau Addysg Bellach. Mae Swyddog Cangen Prifysgol Caerdydd yn gweithio'n agos gyda'r Academi Gymraeg ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygiadau pellach o fewn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y tri Choleg. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys ffrydiau ariannu i ddatblygu darpariaeth, ysgoloriaethau cymhellant i israddedigion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ysgoloriaethau ymchwil, Tystysgrifau Sgiliau Iaith Gymraeg, a llysgenhadaeth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig.

4. Datblygiadau yn ystod 2021-2022

Gwaith Monitro Comisiynydd y Gymraeg

Bob blwyddyn mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sicrwydd sy'n cynnwys data a gafwyd o'u gwaith monitro. Pwrpas adroddiadau sicrwydd yw rhoi barn y Comisiynydd ar sut mae sefydliadau'n gweithredu i gydymffurfio â'u dyletswyddau iaith, gan roi sylw arbennig i brofiadau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Mae'n cynnwys tystiolaeth am:

- Perfformiad sefydliadau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg ac annog pobl i'w defnyddio
- Trefniadau cydymffurfio – yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud i sicrhau bod eu darpariaeth yn cydymffurfio â'r gofynion
- Capasiti'r gweithlu – sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn y rolau cywir
- Hyrwyddo'r Gymraeg – cyfrannu at ddyfodol y Gymraeg drwy ystyried effaith penderfyniadau polisi a grantiau ar y Gymraeg a gweithredu strategaethau hybu'r Gymraeg.

Roedd Prifysgol Caerdydd yn destun gwaith monitro'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac roedd yn ofynnol iddi ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth mewn 24 o feysydd cydymffurfio a oedd yn cynnwys 91 o'r 177 o safonau sydd gennym.

Nid yw canfyddiadau llawn y gwaith wedi cael eu rhannu â'r Brifysgol eto, ac felly mae'n debygol y byddant yn rhan o'r adroddiad monitro yn 2022-2023. Fodd bynnag, roedd y Brifysgol yn gallu amlygu rhai meysydd i'w gwella fel rhan o'r gwaith hwn ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn *Adran 6 - Camau Gweithredu Allweddol*.

Fel rhan o godi ymwybyddiaeth o'r gwaith monitro hwn, cyhoeddodd y Brifysgol ei thaflen Gosod y Safonau a phoster y dderbynfa sydd i'w gweld yn atodiadau A a B.

Monitro Gwefan Prifysgol Caerdydd gan Gomisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn monitro ein cynnydd o ran cydymffurfio â Safon 55,

Rhaid i chi wneud yn siŵr —

(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,

(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gwbl weithredol, a

(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg ar eich gwefan.

Fel rhan o'r gwaith monitro mae Prifysgol Caerdydd wedi darparu rhestr gynhwysfawr o adrannau gwefan a statws cyfieithu (Atodiad C) i Gomisiynydd y Gymraeg. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys tudalennau disgrifio modiwlau sydd hefyd yn ddarostyngedig i ofynion Safon 55. Roedd ein diweddariadau cychwynnol i'r comisiynydd yn canolbwyntio ar ein Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir ac roeddem yn gallu cadarnhau eu bod bellach ar gael yn Gymraeg. Yn ystod diweddariadau yn y dyfodol, byddwn yn trafod sut y byddwn yn blaenoriaethu disgrifiadau modiwlau a phroffiliau staff (o ystyried y nifer fawr o dudalennau).

Mae'n debygol y bydd diweddariadau pellach ar hyn yn rhan o adrodd yn y dyfodol, fodd bynnag mae meysydd blaenoriaeth ar gael yn *Adran 6 Camau Gweithredu Allweddol*.

Monitro ein Cydymffurfiaeth â Safon 100 gan Gomisiynydd y Gymraeg

Cysylltodd Comisiynydd y Gymraeg â'r Brifysgol ym mis Rhagfyr 2021 i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch ein cydymffurfiaeth â Safon 100 -

Mae'n rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol —

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith

dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

Mae polisi drafft wedi'i rannu â Grŵp Gweithredol y Gymraeg a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer adborth cychwynnol cyn ei lunio ymhellach a'i fabwysiadu'n ffurfiol drwy Fwrdd Gweithredol y Brifysgol yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-2023.

Ymgyrchoedd

Yn ystod 2021-2022 bu'r Brifysgol yn hyrwyddo sawl ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o hawliau myfyrwyr a staff Prifysgol Caerdydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi bod yn bresennol mewn nifer o wyliau diwylliannol. Ceir rhai uchafbwyntiau isod -

Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg

Buom yn dathlu Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg drwy dynnu sylw at y gwasanaethau y mae gan bobl hawl i'w derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Eisteddfod yr Urdd + yr Eisteddfod Genedlaethol

Buom yn hyrwyddo gweithgarwch y Brifysgol yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ar draws ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â chyhoeddi ein postiau ein hunain, fe wnaethom hefyd ymwneud â phostiadau gan randdeiliaid perthnasol a'u rhannu fel y bo'n briodol. Trefnwyd hefyd i rai o'n myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gymryd drosodd cyfrif Twitter iamcardiffuni am yr wythnos er mwyn postio'n fyw o'r Maes.

5. Trefniadau Cydymffurfiaeth Cyffredinol

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar gael i'w ddarllen yn ein [Polisi Cyflenwi Gwasanaethau Cymraeg](#).

Grŵp Safonau	Yr hyn a wnawn
Gohebu â'r Cyhoedd	Mae'r Brifysgol wedi llunio arweiniad i staff ynghylch cyfathrebu'n ddwyieithog, ac mae hwn ar gael ar Fewnrwyd y Staff. Mae ymgyrch gyfathrebu wedi cael ei chynnal drwy gydol y cyfnod adrodd er mwyn codi ymwybyddiaeth y staff o'r arweiniad. Mae hyn yn cynnwys erthyglau rheolaidd i staff, a fideo sy'n esbonio hawliau Myfyrwyr o dan y Safonau. Gofynnir i staff gynnwys llofnod dwyieithog ar waelod pob e-bost. Mae dewis iaith y myfyrwyr yn cael ei gofnodi wrth iddynt ymrestru ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i'r staff sy'n cyfathrebu â nhw.
Rhif ffôn	Crëwyd arweiniad i staff er mwyn helpu'r rhai di-Gymraeg gyda chyfarchion dwyieithog a recordio neges allan-o'r-swyddfa. Mae cardiau post wedi cael eu dylunio ar gyfer y bwrdd gwaith sy'n rhestru cyfarchion defnyddiol wedi'u hysgrifennu'n ffonetig ac mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu'n helaeth ledled y Brifysgol.
Cyfarfodydd, Digwyddiadau, Darlithoedd Cyhoeddus a Chyfleoedd i Ddysgu	Crëwyd arweiniad i staff a dogfennau coeden benderfyniadau er mwyn helpu staff i ganfod a oes angen darpariaeth ddwyieithog yn y categorïau hyn. Mae'r Tîm Cydymffurfio a Risg wedi rhoi cyflwyniadau mewn sawl grŵp rhwydwaith staff allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion yn y meysydd hyn. Llwyddodd tîm cyfieithu'r Brifysgol i ddatblygu gweithdrefn ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd ar-lein ac mae wedi derbyn adborth cadarnhaol ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon.
Gwefan	Sefydlodd y Brifysgol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio Prosiect Cyfieithu'r Wefan. Rheolir monitro parhaus drwy'r grŵp hwn.
Dogfennau/Cyhoeddusrwydd	Crëwyd arweiniad er mwyn helpu staff i ganfod y dogfennau a'r cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid iddynt fod ar gael yn ddwyieithog. Rydym wedi nodi'r dogfennau safonol y mae'r Brifysgol yn eu creu ac rydym wedi rhoi prosesau ar waith er mwyn gwneud yn siŵr eu bod ar gael yn ddwyieithog pryd bynnag y bo'r angen.
Tiwtoriaid personol	Mae'r Brifysgol yn gofyn i fyfyrwyr a ydynt am gael tiwtor personol Cymraeg wrth iddynt ymrestru. Rhennir y dewisiadau hyn â'r ysgolion, a byddant yn neilltuo tiwtor yn ôl yr angen. Mae sawl Ysgol sydd â lefel uchel o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg yn aseinio tiwtor Cymraeg iddynt yn ddiodyn.

Arwyddion, hysbysiadau, a hysbysebion	Mae arweiniad i staff ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y maes hwn.
Cyfryngau cymdeithasol	Rydym wedi datblygu canllawiau i staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg, sy'n amrywio yn dibynnu ar y math o gyfrif a chynulleidfa.

Safonau Llunio Polisi

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw
Llunio Polisi	<p>Wrth greu Polisiâu newydd, cynnal ymgynghoriadau neu ymchwil yn ymwneud â'r Polisiâu hynny, gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllid grant, neu ddatblygu neu ddiwygio cwrs, mae gofyn i'r Brifysgol ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys ystyriaeth o'r iaith Gymraeg.</p> <p>I gydnabod pwysigrwydd y Safonau yn y maes hwn, mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllaw i'r holl staff. Gyda chymorth rhwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg, rydym wedi dechrau cyfeirio'r canllaw hwn at swyddogion a thimau sy'n debygol o gyflawni gweithgareddau a fydd yn golygu bod yn rhaid cynnal Aseiad.</p>

Safonau Gweithredu

Gellir darllen datganiad o gydymffurfiaeth ffurfiol y Brifysgol yn y Safonau Gweithredu yn nogfen [Polisi Safonau Gweithredol y Gymraeg](#).

Grŵp Safonau	Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn dan sylw
Recriwtio	<p>Asesir pob swydd newydd a/neu wag mewn perthynas â lefel yr hyfedredd yn y Gymraeg sydd ei hangen, a chaiff ei dosbarthu yn ôl un o'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hyfedredd/rhuglder yn hanfodol; • hyfedredd/rhuglder yn ddymunol; • gofyniad i ddod yn hyfedr/rhugl; • nid yw hyfedredd/rhuglder yn angenrheidiol. <p>Cyhoeddir hysbysebion swyddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae ffurflenni cais a deunyddiau recriwtio ategol ar gael yn Gymraeg ac mae unrhyw ffurflen gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ymateb yn Cymraeg.</p>
Hyfforddiant Staff a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg	<p>Mae'r modiwl gorfodol am y Gymraeg yn cynnwys adran labordy iaith sy'n rhoi lefel sylfaenol o Gymraeg i staff.</p> <p>Mae Ysgol y Gymraeg, fel darparwyr y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer</p>

	<p>Dysgu Cymraeg, yn cynnig ystod eang o gyrsiau Cymraeg trwy Dysgu Cymraeg Caerdydd. Mae ar gael i staff ar lefelau gwahanol, i ddysgu neu wella eu Cymraeg, yn ystod oriau gwaith neu wedi hynny.</p> <p>Mae cyrsiau a gynhelir unwaith neu ddwywaith yr wythnos, yn ddyddiol neu fel bloc ar gael, yn ogystal â chysiau sy'n caniatáu i chi astudio hanner y cwrs ar-lein a'r hanner arall yn y dosbarth.</p> <p>Hefyd, mae'r Brifysgol wedi neilltuo cyllideb ganolog o £20,000 y gall unrhyw aelod o staff ei defnyddio ar sail y cyntaf i'r felin. Ar ôl i'r gyllideb honno gael ei gwario, gofynnir i adrannau ac ysgolion gyllido gofynion gan eu staff eu hunain am hyfforddiant yn y Gymraeg.</p> <p>Darperir cyfleoedd pellach i ddysgu Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Caerdydd trwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; mae'r rhain yn gyrsiau pwrpasol ar gyfer staff gyda chefnogaeth un-i-un fwy helaeth, wedi'u hanelu'n benodol at wella sgiliau'r rhai a allai gyfrannu at ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol.</p> <p>Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnig grwpiau sgwrsio anffurfiol wythnosol i ddysgwyr ar bob lefel.</p>
Dogfennau	Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae dogfennau ar gael yn Gymraeg i staff ar gais yn ôl y gofyn.
Cwynion a Disgyblu	Gall pob aelod o staff wneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg mewn materion sy'n ymwneud ag unrhyw gŵyn a godir, neu a godir yn ei erbyn. Os yw aelod o staff yn destun achos disgyblu, caiff yr unigolyn hwnnw ymateb yn Gymraeg mewn unrhyw gyfrwng.

6. Camau Gweithredu yn y Dyfodol

Dros y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Brifysgol yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i sicrhau y cydymffurfir yn fwy cadarn â Safonau'r Gymraeg.

Cam gweithredu	Tîm Cyfrifol	Monitro
<p>Cynnwys mewnrwyd myfyrwyr i gydymffurfio â Safon 55 > 59.</p> <p><i>Yr holl gynnwys a swyddogaethau ar gael yn Gymraeg ac eithrio gwybodaeth i fyfyrwyr rhyngwladol yn unig.</i></p>	Cyfathrebu Digidol	<p>Grwpiau Gorchwyl a Gorffen</p> <p>Grŵp Gweithredol y Gymraeg</p>
Edrych ar opsiynau ar gyfer galluogi Dyfeisiau Aml-Swyddogaeth i ddarparu cyfarwyddiadau panel cyffwrdd dwyieithog.	Gwasanaethau TG	<p>Grŵp Gweithredol y Gymraeg</p> <p>Grŵp Materion y Gymraeg</p>
Cyhoeddi Polisi ar Ddyfarnu Grantiau neu Gymorth Ariannol sy'n cydymffurfio â Safon 75-79 + 100.	Tîm Cydymffurfio a Risg	UEB
Rhoi cyhoeddusrwydd rhagweithiol i hawliau myfyrwyr i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn unol â Safon 90.	Tîm Cydymffurfio a Risg	<p>Grŵp Gweithredol y Gymraeg</p> <p>UEB</p>
Datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn unol â safon 105.	<p>Tîm Cydymffurfio a Risg</p> <p>Academi Gymraeg</p> <p>Rhwydwaith</p>	<p>Grŵp Gweithredol y Gymraeg</p> <p>UEB</p>
Diweddarar gohebiaeth ar gyfer dechreuwyr newydd i gynnwys cynnig rhagweithiol ynghylch dewis iaith, yn unol â Safon 106 a 107.	Adnoddau Dynol	UEB
Diweddarar tudalennau'r fewnrwyd i gynnwys y nodiadau atgoffa canlynol - gall staff gyflwyno unrhyw gŵyn i'r Brifysgol yn Gymraeg - mae staff yn gallu ymateb i unrhyw gwynion amdanynt yn Gymraeg, yn unol â safon 119A.	Adnoddau Dynol	UEB
<p>Cynnwys mewnrwyd staff i gydymffurfio â Safon 128, 130 a 133.</p> <p><i>Yr holl gynnwys a swyddogaethau ar gael yn Gymraeg.</i></p>	Cyfathrebu Digidol	Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Diweddarau'r broses Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg i sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn ystyried gofynion ehangach o ran: Safonau'r Gymraeg fel rhan o'r broses recriwtio (yn unol â Safon 145).	Adnoddau Dynol Cydymffurfio a Risg	Grŵp Gweithredol y Gymraeg
Treialu prosiect gydag un o'n Colegau, i edrych ar gefnogi cydymffurfiaeth lawn â safonau sy'n ymwneud â hysbysebu swyddi gwag a'r angen i ddisgrifiadau swydd, hysbysebion a deunydd ategol fod ar gael yn Gymraeg, gyda'r nod o adeiladu cof cyfieithu i'w gyflwyno'n ehangach ar draws y Brifysgol gyfan.	Adnoddau Dynol Gwasanaeth Cyfieithu'r Gymraeg	Grŵp Gweithredol y Gymraeg
Diweddarau ffurflenni cais, cynnwys ein tudalennau recriwtio, a dogfennau canllaw i recriwtwyr - i sicrhau y cydymffurfir â Safonau 146 > 149	Adnoddau Dynol	Grŵp Gweithredol y Gymraeg
Gweithredu dull TG newydd ar gyfer proffiliau staff i sicrhau cydymffurfiaeth â Safon 55	Cyfathrebu Digidol TG	Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Grŵp Gweithredol y Gymraeg
Gweithredu proses newydd i sicrhau bod disgrifiadau modiwlau yn cael eu darparu yn Gymraeg.	TG Y Gofrestrfa	Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Grŵp Gweithredol y Gymraeg UEB
Ailddatblygu Proses Asesu Effaith Cydraddoldeb y Brifysgol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth fwy cadarn i effeithiau ar y Gymraeg yn unol â'r safonau perthnasol.	Cydymffurfio a Risg	UEB Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Diweddarau canllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.	Cyfathrebu dros Gyfryngau Cymdeithasol Cydymffurfio a Risg	Grŵp Gweithredol y Gymraeg UEB
Diweddarau canllawiau ar greu fideos.	Cyfathrebu Cydymffurfio a Risg	Grŵp Gweithredol y Gymraeg UEB

7. Cwynion

Mae sut mae Prifysgol Caerdydd yn delio â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'i nodi yn ei [Pholisi Cyflenwi Gwasanaethau](#) Iaith Gymraeg a'i [Pholisi Safonau Gweithredol](#).

Anogir y rhai sy'n cwyno i gysylltu â complianceandrisk@caerdydd.ac.uk gydag unrhyw bryderon. Mae'r Uwch Gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg, a Swyddogion Cydymffurfiaeth yn monitro'r mewnlwch hwn ac yn cysylltu ag adrannau i ymchwilio i gwynion.

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-2022 derbyniwyd y nifer ganlynol o gwynion ym Mhrifysgol Caerdydd.

Grŵp safonau	Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol
Safonau cyflenwi gwasanaeth	2
Safonau llunio polisïau	0
Safonau gweithredu	0

Natur y cwynion

Dyddiad y Gŵyn	Manylion	Camau a gymerwyd
Mawrth 2022	Honiad bod gohebiaeth i un o bwyllgorau'r Senedd wedi'i darparu yn Saesneg yn unig, gan Brifysgol Caerdydd, sef rhywbeth nad oedd yn unol â Safonau'r Gymraeg	Ni chadarnhawyd y gŵyn. Dywedodd yr achwynydd fod yr ohebiaeth i bwyllgor y Senedd wedi'i darparu gan arbenigwr pwnc yr oedd pwyllgor y Senedd wedi'i wahodd i fod yn bresennol, ac nid ar ran Prifysgol Caerdydd. Mae'r arbenigwr pwnc yn gweithio i Brifysgol Caerdydd, ond nid oedd yn bresennol ar ran Prifysgol Caerdydd.
Mawrth 2022	Roedd arwyddion y dderbynfa yn Adeilad newydd Sbarc yn cynnwys sillafiad anghywir o'r geiriau 'y dderbynfa' yn Gymraeg.	Cadarnhawyd y gŵyn. Diweddarwyd yr arwydd i adlewyrchu'r sillafiad cywir.

8. Sgiliau Iaith Gymraeg Gweithwyr

Ceir amlinelliad o broffil staff y Brifysgol sy'n siarad Cymraeg isod, mae hefyd yn cynnwys ein cyfraddau ymateb.

Ysgol / Adran	Dim Ymateb	Ymateb	Cyfradd Ymateb	Rhugl	Rhywfaint o Allu	Dim Gallu	Rhugl / Rhywfaint o Allu	%
Y Gwasanaethau Academaidd a Chymorth i Fyfirwyr	203	663	76.56%	37	252	379	289	43.59%
Pensaernïaeth	26	62	70.45%	0	12	50	12	19.35%
Y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	17	51	75.00%	5	21	25	26	50.98%
Y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd	39	54	58.06%	1	25	28	26	48.15%
Y Biowyddorau	139	201	59.12%	10	46	145	56	27.86%
Cyfleusterau Campws	152	87	36.40%	1	24	62	25	28.74%
Ysgol Busnes Caerdydd	160	188	54.02%	6	45	137	51	27.13%
Cyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd	84	147	63.64%	13	43	91	56	38.10%
Cemeg	35	120	77.42%	3	29	88	32	26.67%
Cyfathrebu a Marchnata	12	181	93.78%	17	69	95	86	47.51%
Cyfrifiadureg	18	131	87.92%	4	32	95	36	27.48%
Deintyddiaeth	29	85	74.56%	3	13	69	16	18.82%
Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfirwyr	1	26	96.30%	2	14	10	16	61.54%
Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd	13	85	86.73%	0	21	64	21	24.71%
Peirianeg	109	203	65.06%	3	52	148	55	27.09%
Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth	7	106	93.81%	5	38	63	43	40.57%
Ystadau a Chyfleusterau Campws	92	89	49.17%	3	20	66	23	25.84%
Cyllid	11	95	89.62%	1	33	61	34	35.79%
Daearyddiaeth a Chynllunio	12	70	85.37%	0	23	47	23	32.86%
Y Gwyddorau Gofal Iechyd	79	197	71.38%	12	65	120	77	39.09%

Ysgol / Adran	Dim Ymateb	Ymateb	Cyfradd Ymateb	Rhugl	Rhywfaint o Allu	Dim Gallu	Rhugl / Rhywfaint o Allu	%
Astudiaethau Gofal Iechyd	0	1	100.00 %	0	0	1	0	0.00%
Hanes, Archaeoleg a Chrefydd	45	67	59.82%	1	15	51	16	23.88%
Adnoddau Dynol	14	65	82.28%	4	23	38	27	41.54%
Archwilio Mewnol	1	2	66.67%	0	1	1	1	50.00%
Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol	46	61	57.01%	3	15	44	18	29.51%
Mathemateg	13	60	82.19%	2	14	44	16	26.67%
Meddygaeth	450	692	60.60%	23	224	446	247	35.69%
Cerddoriaeth	12	21	63.64%	2	6	13	8	38.10%
Optometreg a Gwyddorau'r Golwg	60	49	44.95%	3	15	31	18	36.73%
Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol	34	53	60.92%	4	21	28	25	47.17%
Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg	3	30	90.91%	1	10	19	11	36.67%
Ffiseg a Seryddiaeth	68	113	62.43%	1	30	82	31	27.43%
Rheoli Portffolio a Gwasanaethau TG	0	1	100.00 %	0	1	0	1	100.00 %
Seicoleg	86	111	56.35%	4	27	80	31	27.93%
Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd	17	98	85.22%	3	42	53	45	45.92%
Ysgol Ieithoedd Modern	59	93	61.18%	5	29	59	34	36.56%
Y Gwyddorau Cymdeithasol	48	192	80.00%	8	57	127	65	33.85%
Cynllunio Strategol	1	15	93.75%	1	5	9	6	40.00%
Taith	1	10	90.91%	1	4	5	5	50.00%
TG y Brifysgol	69	242	77.81%	11	72	159	83	34.30%
Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol	0	20	100.00 %	3	1	16	4	20.00%
Swyddfa'r Is-Ganghellor	10	19	65.52%	3	6	10	9	47.37%
Cymraeg	25	60	70.59%	57	3	0	60	100.00 %
Cyfanswm	2257	4864	68.31%	266	1498	3159	1764	36.27%

9. Hyfforddiant Iaith Gymraeg i Staff

Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd, sy'n rhan o Ysgol y Gymraeg yn y Brifysgol, yn darparu rhaglen o gyrsiau sydd ar gael i staff y Brifysgol. Ar gyfer 2021-22, dyrannodd y Brifysgol gyllideb ganolog o £20,000 y gallai unrhyw staff ei defnyddio ar sail y cyntaf i'r felin i dalu costau'r cyrsiau hyn.

Mynychodd cyfanswm o 72 aelod o staff gyrsiau Dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Rhoddir dadansoddiad o'r lefelau amrywiol isod -

Lefel	Nifer
Mynediad 1	6
Mynediad 2	10
Mynediad 1 a 2	6
Sylfaen 1	7
Sylfaen 2	8
Sylfaen 1 a 2	6
Canolradd 1	6
Canolradd 2	4
Uwch 1	4
Uwch 2	3
Uwch 3	1
Gloywi	2
Cwrs Haf	9
Cyfanswm	72

Mae nifer o staff hefyd yn mynychu sesiynau ychwanegol megis Sadwrn Siarad a Chlwb Darllen.

10. Cyrsiau Hyfforddi

Gofynnir i'r Brifysgol gynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cynigir y fath hyfforddiant yn Saesneg:

- recriwtio a chyfweld;
- rheoli perfformiad;
- gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- ymsefydlu;
- ymdrin â'r cyhoedd;
- iechyd a diogelwch.

Mae dadansoddiad o'r cyrsiau perthnasol a ddarperir gan Brifysgol Caerdydd i'w weld isod ynghyd â nifer y staff a ofynnodd am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd:

Enw'r Cwrs	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg	Canran a fynychodd y fersiwn Gymraeg
Hanfodion Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd	0	0	0%
Rheoli Perfformiad	0	53	0%
Cynefino - Gwasanaethau Proffesiynol a staff Academaidd ac Ymchwil	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Sgiliau ar gyfer recriwtio a Dethol	0	46	0%
Croeso i Gaerdydd	Cyfanswm Cymraeg a Saesneg 450	Cyfanswm Cymraeg a Saesneg 450	Anhysbys

Pan fydd aelod o staff yn archebu lle ar y cwrs, anfonir e-bost atynt i roi gwybod am eu hawl i gael y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae gwneud cais am hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Brifysgol yn cynnig hyfforddiant am weithdrefnau cwyno a disgyblu (yn Saesneg nac yn Gymraeg).

11. Swyddi a Hysbysebwyd

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol adrodd ar nifer y swyddi a hysbysebir yn y categorïau canlynol. Yn ystod 2021-2022, gosodwyd 1,052 o hysbysebion ar gyfer rolau amrywiol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi yr oedd y Brifysgol wedi methu â recriwtio iddynt i ddechrau, a gafodd eu hail-hysbysebu wedyn a recriwtiwyd yn llwyddiannus iddynt o fewn yr un flwyddyn.

Categori	Nifer y swyddi a oedd wedi'u categorio	Canran y swyddi oedd wedi'u categorio
Hanfodol	29	2.75%
Dymunol	710	67.50%
Angen dysgu Cymraeg	0	0.00%
Dim angen sgiliau Cymraeg	313	29.75%
Cyfanswm	1052	100%

12. Manylion Cyswllt

Thomas Tudor Jones

Uwch Gynghorydd Cydymffurfiaeth a Swyddog y Gymraeg

Complianceandrisk@caerdydd.ac.uk

Chwiliwch am '[Safonau'r Gymraeg](#)' ar ein gwefan www.caerdydd.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Atodiadau

Atodiad A: Dogfen Ganllaw Gosod y Safonau



Gosod y Safonau

Setting the Standards

Negeseuon Corfforaethol

Cofiwch:

Dylai'r Gymraeg ymddangos er mwyn cael ei darllen yn gyntaf.

Cyhoeddiadau/Deunydd Cyhoeddusrwydd a hysbysebu:
Ar bapur ac yn electronig

- Dylai'r Gymraeg ymddangos er mwyn cael ei darllen yn gyntaf (h.y. i'r chwith o'r Saesneg neu uwchben y Saesneg).
- Rhaid i fersiynau Cymraeg gael eu cyhoeddi a bod ar gael ar yr un pryd â'r Saesneg.
- Os caiff rhif ffôn ei nodi, rhaid cynnwys:
"Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg."

Dogfennau:

- Ar wahoddiadau, llythyrau a neges droed e-bost, rhaid i ni gynnwys:
"Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi."

Gohebiaeth:

- Rhaid i ohebiaeth fod yn ddwyieithog os nad ydy dewis iaith y derbynnydd yn hysbys.
- Os oes cofnod dewis iaith, ac mae'r ohebiaeth yn cael ei hanfon at un person yn unig, cewch anfon mewn un iaith yn unig.
- Os ydy gohebiaeth yn cael ei hanfon at fwy nag un person ar yr un pryd, rhaid iddi fod yn ddwyieithog, ta beth yw dewis iaith yr unigolion sy'n ei derbyn.

Ateb y Ffôn:

- Rhaid i'r cyfarch llawn fod yn ddwyieithog.
- Cymraeg yn gyntaf e.e.
"Bore Da (Enw'r Gwasanaeth/Ysgol) /
Good Morning (English Service/School Name)
Prynhawn Da (Enw'r Gwasanaeth/Ysgol) /
Good Afternoon (English Service/School Name)."

Gwasanaeth Peiriant Ateb/Neges Lais ar brif wasanaethau ffôn:

- Rhaid bod ar gael yn y Gymraeg.
- Cymraeg yn gyntaf os yw'n recordiad dwyieithog.
- Rhaid i chi hefyd recordio'r neges yma;
"Croeso i chi adael neges yn y Gymraeg."

Gwasanaeth Derbynfaf:

- Rhaid arddangos yr arwydd corfforaethol;
"Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yma."
- Cyfarch owsmeriaid yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.
- Sicrhau bod yno gopi o'r pecyn 'Safonau'r Gymraeg' corfforaethol sy'n cael ei anfon yn uniongyrchol i bob derbynfaf.

Corporate Messages

Remember:

Welsh must be positioned so as to be read first.

Publications/Advertising/Publicity: Paper based and electronic

- Welsh must be positioned to be read first (i.e. to the left of the English or above the English).
- Must be published and available at the same time as the English.
- Where a telephone number is provided we must include:
"You are welcome to communicate with us in Welsh."

Documents:

- On invitations, letters and our e-mail footer we must include:
"The University welcomes correspondence in Welsh or English. Corresponding in Welsh will not lead to any delay."

Correspondence:

- Correspondence must be bilingual where language preference of the recipient is not known.
- Where language preference is known, and the correspondence is being sent to one person only, single language is acceptable.
- Correspondence being sent to more than one person at the same time, must always be bilingual, regardless of the individuals language preference.

Answering the Phone:

- Full greeting must be bilingual.
- Welsh first e.g.
"Bore Da (Welsh Service/School Name) /
Good Morning (English Service/School Name)
Prynhawn Da (Welsh Service/School Name) /
Good Afternoon (English Service/School Name)."

Answering Service / Voicemail on Main telephone numbers:

- Must be available in Welsh.
- Welsh first if a bilingual recording.
- Provide the following proactive offer:
"You are welcome to leave a message in Welsh."

Reception Service:

- Must display corporate sign;
"You are welcome to use Welsh here."
- Greet customers bilingually, Welsh first.
- Make available a copy of the corporate 'Welsh Language Standards' pack that is sent directly to each reception service.

Arwyddion:

- Rhaid i bob arwydd newydd gan gynnwys rhai dros dro yn y gweithle fod yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.

Gwefannau a Chyfyngau Cymdeithasol:

- Rhaid i'r holl gynnwys fod yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf, ac wedi'i gyhoeddi ar yr un pryd.
- Os bydd rhywun yn cysylltu â chi yn y Gymraeg, atebwch yn y Gymraeg.
- Cofiwch gynnwys hyperddolenni i fersiynau Cymraeg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus:

- Rhaid i chi gynnwys, ar wahoddiadau, gohebiaeth a phosteri yn rhoi gwybod i'r cyhoedd neu fyfyrwr am gyfarfodydd;
"Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod"
- Cynhyrchu fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o'r holl deunydd marchnata.
- Sicrhau cynnig rhagweithiol i bersonau sy'n cael gwahoddiad i siarad, ddefnyddio'r Gymraeg.
- Trefnu wasanaethau cyfieithu ar y pryd trwy gysylltu â cyfieithu@caerdydd.ac.uk

Cyfarfodydd Caeedig:

- Rhaid i chi gynnwys, ar wahoddiadau, gohebiaeth a phosteri yn rhoi gwybod unigolion am gyfarfodydd;
"Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod dim ond i chi roi gwybod i ni erbyn xx/xx/xx."
- Os ydych chi'n derbyn ateb, cysylltwch â'r adran Cydymffurfiaeth a Risg am gyngor pellach.

Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd:

- Os bydd gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd ar gael, rhaid i chi ddatgan yn y cyfarfod;
"Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod gan fod cyfieithu ar y pryd ar gael."

Staff:

- Rydym yn annog pob aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo cortyn gwddf i ddangos eu gallu ieithyddol.
 Mae modd cyflwyno cais am un trwy e-bostio complianceandrisk@caerdydd.ac.uk
- Mae cortynnau gwddf a bathodynnau dysgwyr ar gael hefyd.
- Mae gwersi Cymraeg, ar bob lefel, ar gael i staff.
 Cysylltwch â dysgucymraeg@caerdydd.ac.uk am ragor o fanylion.

E-lofnodion a negeseuon 'ddim yn y swyddfa':

- Mae templedi ar gael ar e in [tudalennau ar mewnrhwyd](#).
- E-bostiwch: cyfieithu@caerdydd.ac.uk am gyfieithiad o'ch teitl swydd/e-lofnod.

Offer TGCh (Gweithio yn y Gymraeg):

- To Bach.
- Cysglliad (gwirwr sillafu, geiriadur, thesawrs).
- Rhaglenni Windows ac Office Cymraeg.
- Mae modd lawrwytho'r aps yma trwy CardiffApps.
 Cysylltwch a TGCH am rhagor o wybodaeth - it-service@caerdydd.ac.uk

Signage:

- All new signage in the workplace, including temporary ones must be bilingual, Welsh first.

Websites & Social Media:

- All content must be bilingual, Welsh first and published at the same time.
- If you are contacted in Welsh, reply in Welsh.
- Remember to link to Welsh version in any hyperlinks.

Public Meetings:

- You must include, on invitations, correspondence and posters informing students or the public of a meeting;
"You are welcome to use Welsh at the meeting"
- Produce a Welsh or bilingual version (Welsh first) of all publicity material.
- Provide a proactive offer for invited speakers to use the Welsh language at the meeting.
- Arrange simultaneous translation services by contacting translation@cardiff.ac.uk

Closed Meetings:

- You must include, on invitations, correspondence and posters informing individuals of a meeting;
"You are welcome to use Welsh at the meeting, just let us know by xx/xx/xx should you wish to do so."
- If you receive a reply, contact Compliance and Risk for further advice.

Simultaneous Translation Services:

- Where Simultaneous Translation is being used you must declare at the meeting;
"You are welcome to use Welsh in the meeting as simultaneous translation has been provided."

Staff:

- All Welsh speaking staff are encouraged to wear their lanyard to show language ability.
 Please request yours by emailing complianceandrisk@cardiff.ac.uk
- Learner lanyards and badges are also available.
- Welsh language lessons, at all levels, are available for staff. Please contact dysgucymraeg@cardiff.ac.uk for more information.

Email Signatures and Out Of Office messages:

- Templates are available on our [Intranet Pages](#).
- Email: translation@cardiff.ac.uk for a translation of your job title/email signature.

ICT Tools (Working in Welsh):

- To Bach (the circumflex).
- Cysglliad (spell checker, dictionary, thesaurus).
- Welsh Windows & Office.
- You can download these apps via CardiffApps or contact IT for more information - it-service@cardiff.ac.uk

Am ragor o wybodaeth chwiliwch **'Safonau'r Gymraeg'** ar y fewnwyd neu gysylltu â:

- complianceandrisk@caerdydd.ac.uk
- cyfieithu@caerdydd.ac.uk

For more information search **'Welsh Language Standards'** on the intranet or contact:

- complianceandrisk@cardiff.ac.uk
- translation@cardiff.ac.uk



**Croeso i chi
siarad Cymraeg
yma.**

Cymraeg

**You are welcome
to use Welsh
here.**

Atodiad C: Rhestr o adrannau gwefan oedd â statws wedi'u cyfieithu (3 Mai 2022)

Adran	Tudalennau heb eu cyfieithu	% heb eu cyfieithu
Astudiaethau is-raddedig (heb gynnwys cyrsiau)	0	0
Cyrsiau israddedig	0	0
Astudiaethau ôl-raddedig (heb gynnwys cyrsiau)	16	9
Cyrsiau ôl-raddedig a addysgir	304	23
Llety	0	0
Bywyd myfyrwyr	0	0
Cyrsiau ymchwil ôl-raddedig	0	0
Pobl (proffiliau staff ac ymchwil ôl-raddedig)	10,433	**nid yw'n bosibl inni fesur hyn ar hyn o bryd.
Cyrsiau rhan-amser i oedolion	11	24
Myfyrwyr newydd	6*	9*
Swyddi	0	0
Newyddion	0	0
Gwybodaeth gyhoeddus	6	3
Llyfrgelloedd	0	0
Amdanom ni	1	1
Ysgolion y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd (BLS)	328	36
Ysgolion y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (AHSS)	268	48
Ysgolion y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg (PSE)	270	48
Ymweld â ni	0	0
Graddio	0	0
Datblygiad Proffesiynol	24	38
Cymuned (gan gynnwys safleoedd Chwaraeon a Chenhadaeth Ddinesig)	95	48
Coronafeirws	0	0
Cynfyfyrwyr	3	7
Busnes (nid yr ysgol)	114	68

Casgliadau Arbennig	39	22
Safleoedd y colegau	22	31
Optometryddion	10	59
Sefydliadau ymchwil blaenllaw	97	55
Datganiadau i'r cyfryngau	140	83
Arloesedd	0	0
Rhyngwladol	5*	25*
Ymchwil (heb gynnwys sefydliadau ymchwil)	93	55
Ysgrifau coffa	92	69
Cyflwyno rhodd	1	5
Cynadleddau	162	89
Cyfanswm y tudalennau heb eu cyfieithu	12,529	

*Cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol